

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG



**Cynnig i Ehangu'r Eiddo yn Ysgol Gynradd Drury  
Cynyddu'r Capasiti yn Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o Ddisgyblion  
Llaw'n Amser**



**Mawrth 2022**

**Mae fersiynau print bras, Braille, fersiynau mewn ieithoedd  
amgen a fersiynau copi caled o'r ddogfen hon ar gael ar eich  
cais.**

---

## CYNNWYS

---

<b>A.</b>	<b>AMLINELLIAD O'R ASESIAD</b> .....	<b>3</b>
1.	Cyflwyniad .....	3
2.	Pwrpas yr Aseiad.....	3
<b>B.</b>	<b>LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</b> .....	<b>3</b>
3.	Y Nodau .....	3
4.	Datblygu Cynaliadwy .....	4
<b>C.</b>	<b>MEYSYDD ASESU</b> .....	<b>4</b>
<b>D.</b>	<b>EFFEITHIAU POSIBL</b> .....	<b>5</b>
5.	Cyfraniad at y Nodau Lles .....	5
6.	Cyfraniad at Ddatblygu Cynaliadwy .....	6
7.	Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol .....	7
8.	Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg .....	7
9.	Aseiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth .....	8
10.	Aseiad o'r Effaith ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn .....	9
11.	Aseiad o'r Effaith ar Iechyd .....	10
12.	Aseiad o'r Effaith ar Dlodi .....	10
<b>E.</b>	<b>HYRWYDDO EFFAITH GADARNHAOL</b> .....	<b>12</b>
<b>F.</b>	<b>CASGLIAD</b> .....	<b>13</b>

---

## A. AMLINELLIAD O'R ASESIAD

---

### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno ceisio barn partïon â diddordeb am gynnig i ehangu eiddo'r ysgol yn Ysgol Gynradd Drury a chynyddu ei capasiti o 124 o ddisgyblion llawn amser i 180 o ddisgyblion llawn amser o 1 Medi 2024.
- 1.2. Mae'r ddogfen ymgynghori ffurfiol yn nodi gwybodaeth y dylai ymgynghoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018.
- 1.3. Y ffigurau, ystadegau a deunyddiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael ar adeg ei chyhoeddi.

### 2. Pwrpas yr Aseiad

- 2.1. Nod yr Aseiad Effaith Integredig hwn yw nodi effaith cadarnhaol a negyddol bosibl pob dewis a gynigir, ac amlinellu camau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru unrhyw effaith a nodir.
- 2.2. Bydd yr Aseiad hwn yn ystyried sut mae'r cynigion yn cyfrannu at nodau'r Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut maen nhw'n bodloni egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 2.3. Bydd y ddogfen hefyd yn cynnwys nifer o asesiadau unigol er mwyn gwerthuso effaith bosibl y cynnig.

---

## B. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

---

### 3. Y Nodau

- 3.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- 3.2. Mae'r Ddeddf yn amlinellu 7 nod lles sy'n darparu gweledigaeth a rennir i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag atynt, sef:
  - Cymru lewyrchus;
  - Cymru gydnerth;
  - Cymru iachach;
  - Cymru sy'n fwy cyfartal;
  - Cymru o gymunedau cydlynus;
  - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## 4. Datblygu Cynaliadwy

- 4.1. Mae egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i chynnwys yn y Ddeddf hefyd, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- 4.2. Mae 5 Dull o Weithio a all ddangos sut mae'r Cyngor wedi gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy:
  - Hirdymor;
  - Atal;
  - Integreiddio;
  - Cydweithio; a
  - Chynnwys.
- 4.3. Mae rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'w gweld yn <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

---

## C. MEYSYDD ASESU

---

- 4.4. Mae nifer o feysydd a allai gael eu heffeithio gan unrhyw gynigion ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i bob un.
- 4.5. Mae'r asesiadau o effaith canlynol wedi'u hintegreiddio i'r ddogfen hon er mwyn darparu gwerthusiad cynhwysfawr o effaith bosibl:
  - Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
  - Y Gymraeg;
  - Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth;
  - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
  - Iechyd; a
  - Thlodi.

## D. EFFEITHIAU POSIBL

### 5. Cyfraniad at y Nodau Lles

Disgrifiad	Cyfraniad
<b>Cymru lewyrchus</b>	
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am waith, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith addas.	
<b>Cymru gydnerth</b>	
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).	
<b>Cymru iachach</b>	
Cymdeithas lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl a lle mae dewisiadau ac arferion sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.	
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>	
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).	

Disgrifiad	Cyfraniad
<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	
Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.	Mae estyniad i'r ysgol newydd bresennol yn cynnig ysgol gymunedol ddeniadol i'r gymuned, sydd yng nghanol pentref Drury.
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>	
Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.	
<b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</b>	
Cenedl sy'n ystyried a fyddai gwneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a lles diwylliannol Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i les byd-eang.	

## 6. Cyfraniad at Ddatblygu Cynaliadwy

Disgrifiad	Cyfraniad
<b>Hirdymor</b>	
Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	Mae'r cynnig yn edrych ar sicrhau lleoedd ychwanegol i ddisgyblion yn yr ardal. Trwy newid ei chapasiti, bydd yr ysgol yn agor cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad a chydweithio a fydd yn helpu i gynnal ei hyfywedd am flynyddoedd i ddod.
<b>Atal</b>	
Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	
<b>Integreiddio</b>	

<b>Disgrifiad</b>	<b>Cyfraniad</b>
Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion lles, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	
<b>Cydweithio</b>	
Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.	.
<b>Cynnwys</b>	
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.	

## 7. Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol

<b>Nodwedd a Ddiogelir</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Oedran	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Ailbennu rhywedd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Anabledd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Priodas a phartneriaeth sifil	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Hil	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Crefydd a Chred	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Rhyw	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Cyfeiriadedd Rhywiol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 8. Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

<b>Nodwedd a Ddiogelir</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Bodloni Safonau'r Gymraeg	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 9. Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth

<b>Nodwedd a Ddiogelir</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Cynllunio ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Diogelu dyfroedd arfordirol a mewndirol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Llygredd: aer/dŵr/pridd/sŵn a dirgryniad/allyriadau	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwella bioamrywiaeth	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon (ynni/dŵr/deunyddiau a mwynau)	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Lleihau faint o wastraff a gaiff ei gynhyrchu a chynyddu ailgylchu, adfer ac aildefnyddio	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	



<b>Nodwedd a Ddiogelir</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwella'r amgylchedd ffisegol: tai, gwasanaethau cyhoeddus, mynediad at fannau gwyrdd a'u hansawdd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth bensaernïol, archeolegol a diwylliannol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 10. Aseiad o'r Effaith ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

<b>Nodwedd a Ddiogelir</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Dim gwahaniaethu	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Lles gorau'r plentyn	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Hawl i oroesi a datblygu	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Hawl i leisio barn	Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)  'Mae gan blant hawl i ddweud beth y maent yn credu ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael ystyriaeth o'u safbwyntiau'.	Ymgynghorir â chynrychiolwyr y boblogaeth disgyblion, fel arfer cyngor ysgol, er mwyn egluro'r cynnig a chael eu barn.  Yn ogystal, bydd pob disgybl yn gallu cwblhau arolwg byr i roi eu barn.

## 11. Aseiad o'r Effaith ar Iechyd

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith Bosibl	Camau Lliniaru
Ffordd o fyw	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Dylanwad Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Lles Meddyliol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Amodau Byw / Amgylcheddol sy'n effeithio ar Iechyd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Amodau economaidd sy'n effeithio ar Iechyd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Mynediad at Wasanaethau a'u hansawdd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu diogelu	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Galluogi mwy o bobl i fyw'n dda ac yn annibynnol gartref	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 12. Aseiad o'r Effaith ar Diodi

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith Bosibl	Camau Lliniaru
Lleihau tlodi tanwydd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwella cyfleoedd gwaith lleol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

Cynyddu hyfforddeiaethau a chyfleoedd am brentisiaethau	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Diogelu pobl rhag tlodi	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwella cymwysterau a sgiliau	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

---

## E. HYRWYDDO EFFAITH GADARNHAOL

---

- 12.1. Er na ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol mewn rhai meysydd, mae nifer o systemau cefnogaeth ar waith i helpu pobl a allai gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau posibl, mae'r rhain yn cynnwys (nid yw'r rhestr yn rhestr gynhwysfawr):
- Bydd unrhyw ddisgybl, rhiant/gofalwr, aelod o staff neu lywodraethwr â nodwedd a ddiogelir yn cael cefnogaeth briodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.
  - Bydd pob disgybl, waeth beth yw eu hoedran, rhyw, anabledd, hil, cred grefyddol ac iaith gyntaf yn cael cynnig cefnogaeth bontio a bugeiliol, os yw'r cynnig yn effeithio arnynt;
  - Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch i bob disgybl gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY);
  - Caiff perfformiad yn ôl rhyw ei fonitro ar lefel yr ysgol a chaiff bylchau eu datblygu trwy'r Cynllun Gweithredu gan yr Ysgol.
  - Gyda nifer o wasanaethau rhyngberthynol arbenigol, mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod ei ddyletswydd dan God Ymarfer AAA Cymru 2022 yn cael ei gyflawni. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys:
    - Gwasanaeth Seicoleg Addysg;
    - Gwasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc;
    - Gwasanaeth Synhwyrdd;
    - Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn a Theithwyr;
    - Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol;
    - Gwasanaeth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu;
    - Gwasanaeth Lles Addysg;
    - Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad;
    - Addysg Heblaw yn yr Ysgol; a
    - Gwasanaeth Cyflwr ar y Sbectwm Awtistig.
  - Mae'r Cyngor yn gweithio o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch ar gyfer ei ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Caiff disgybl ag anabledd ei asesu ar sail unigol ac mae cyllideb ar gael i addasu ysgolion er mwyn i ddisgyblion gael mynediad at y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n rhaid i newidiadau i adeiladau ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac mae'n rhaid iddynt fod yn gymesur ac yn rhesymol a fewn y gyllideb sydd ar gael;
  - Bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion sy'n ymwneud â'r maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd arno;
  - Mae ysgolion cynradd enwadol ac anenwadol i rai 3-11 oed ar gael yn ardal Sir y Fflint pe bai disgyblion yn cael eu gwasgaru ac yn dymuno cael mynediad i addysg ffydd;

- Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir y Fflint wrthi'n datblygu Polisi Traws ar gyfer ysgolion. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i ysgolion;
  - Mae gan yr ysgol ei datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth ei hun, cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn ogystal â pholisïau cyflogaeth i gefnogi staff trwy'r rhaglen newid. Dylai pob ysgol fod â'i hethos ei hun o ran hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo perthnasoedd da.
  - Pe bai rhieni/gofalwyr yn penderfynu dewis ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, fel dewis amgen, mae Ysgol Glanrafon yn yr Wyddgrug tua 4.9 milltir o Ysgol Gynradd Drury
  - Bydd gan ddisgyblion a rhieni ag anableddau fynediad gwell i gyfleusterau ysgol; a
  - Bydd gan ddisgyblion a staff traws fynediad at doiledau niwtral o ran y rhywiau.
- 12.2. Mae pob ysgol yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion GwE ac mae arolygon Ysgol yn cael eu cynnal gan Estyn.

---

## **F. CASGLIAD**

---

- 12.3. Mae polisïau, gweithdrefnau a systemau ar waith i leihau'r effaith negyddol a ragwelir gan yr asesiad hwn. Pe bai gweithredu'r cynnig yn arwain at effaith negyddol nad yw wedi'i nodi, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i ddarparu'r gefnogaeth briodol i unigolion a/neu grwpiau yr effeithir arnynt.